**ADRODDIAD I'R CABINET**
28 MAWRTH 2023

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor

**Pwnc:** Bidiau Un Tro/Cronfa trawsffurfio 2023/24

**Swyddog cyswllt:** Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr

---

**1. Y penderfyniad a geisir**

Gofynnir i'r Cabinet:

- Gymeradwyo y bidiau un-tro o £2,119,300 ar gyfer 2023/24 sydd i'w cyllido o'r gronfa Trawsffurfio.

- Gymeradwyo bidiau cyfalaf gwerth £447,000 sydd i'w hariannu o gyllid cyfalaf.

**2. Y rheswm dros yr angen am benderfyniad**

Eleni, yn wahanol i'r drefn arferol, mae'r bidiau am adnodd un-tro yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad ar wahân i adroddiad y Gyllideb gan nad yw dyrannu adnodd un tro yn cael effaith ar osod ein cyllideb refeniw flynyddol nac yn ystyriaeth wrth orfod pennu cyfradd y Dreth Cyngor. Cyflwynir yr adroddiad hwn cyn dechrau y flwyddyn ariannol 2023/24 fel bod modd gweithredu o 1 Ebrill 2023.

**3. Cyflwyniad / Cefndir**

Yn flynyddol gwahoddir adrannau'r Cyngor i gyflwyno bidiau am adnodd un tro ar gyfer materion megis ymdopi gyda phwysau dros dro, cyflawni prosiectau Cynllun y Cyngor, trawsffurfio gwasanaethau neu arbrofi cyn dod i gasgliad os yw'n synhwyrol darparu cyllideb barhaol.

**4. Bidiau Un-tro 2023/24**

Mae'r bidiau a dderbyniwyd wedi eu hasesu gennyf i, y ddau gyfarwyddwr a'r Pennaeth Cyllid a cyflwynir yn **Atodiad 1** fanylion y bidiau un-tro a argymhellir i dderbyn cefnogaeth ariannol ar gyfer 2023/24.

Argymhellir cymeradwyo 9 o fidiau gwerth £2,119,300 fel sydd wedi eu rhestru yn **Nhabl 1** isod, gyda gwybodaeth fanylach am y bidiau unigol wedi eu cynnwys yn **Atodiad 2**. Mae'r gronfa trawsffurfio sydd ar gael i gyllido blaenoriaethau'r Cyngor i'w defnyddio fel ffynhonnell i gyllido'r bidiau yma.

**Tabl 1 Bidiau Refeniw Un-tro 2023/24**

| | Teitl y Bid | Swm a argymhellir (£) |
|---|---|---|
| **ADDYSG** | | |
| Un-tro 1 | Bid System Rheoli Gwybodaeth Addysg | 54,600 |
| **PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** | | |
| Un-Tro 2 | Swyddi Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol x 3, Arfon, Meirion a Dwyfor | 130,000 |
| **AMGYLCHEDD** | | |
| Un-tro 3 | Casglu Gwastraff: ôl-ddyddio taliadau | 142,500 |
| Un-tro 4 | Rheolaeth o ail gartrefi a llety gwyliau byr dymor – cost adnoddau i sefydlu a gweithredu cyfarwyddyd Erthygl 4 | 400,000 |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| Un-tro 5 | Materion Cyllidol Byw'n Iach - colled incwm | 654,938 |
| Un-tro 6 | Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd | 150,000 |
| Un-tro 7 | Llewyrch o'r Llechi: Cydlynydd Treftadaeth Byd Gogledd Orllewin Cymru | 77,262 |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | |
| Un-tro 8 | Cronfa Dysgu a Datblygu Gorfforaethol | 450,000 |
| Un-tro 9 | Enwau Strydoedd | 60,000 |
| **CYFANSWM** | | **2,119,300** |

## 5. Bid Cyfalaf 2023/24

Ar wahân i'r uchod, yn dilyn cymeradwyo gwerth £385k o fidiau cyfalaf fel rhan o adroddiad Cyllideb 2023/24 i'r Cyngor llawn ar ddechrau Mawrth, ers hynny mae cais cyfalaf pellach angen cefnogaeth ariannol sef 'Uwchraddio ac adnewyddu yr amlosgydd yn Amlosgfa Bangor' gwerth £447,000. Manylir ar y bid yn **Atodiad 3**.

Yn flynyddol clustnodir £500k o arian cyfalaf ar gyfer blaenoriaethau cyfalaf y Cyngor. Gan mai £385k yn unig sydd wedi ei ymrwymo eisoes ar gyfer 2023/24, mae modd defnyddio y £115k sydd yn weddill o gyllideb 2023/24 tuag at ariannu'r bid yma. Nid yw'r gyllideb flynyddol wedi ei hymrwymo yn llawn mewn blynyddoedd blaenorol ychwaith, ac yn ychwanegol i hyn - oherwydd bod adnodd wedi ei ryddhau yn sgil derbyn grantiau ar gyfer gwahanol gynlluniau - mae modd ariannu y £332k sydd yn weddill o'r cyfuniad ffynonellau yma.

## 6. Casgliad

Yn dilyn cymeradwyaeth i'r bidiau a nodir yn Rhan 1 o'r adroddiad, bydd yr arian yn cael ei ddyrannu i'r Adrannau perthnasol fel eu bod yn gallu gweithredu i wario ar y gwasanaethau yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**

Mae swyddogion yr Adran Gyllid wedi cydweithio'n agos gydag awdur yr adroddiad, a gallaf gadarnhau cywirdeb y ffigyrau sydd wedi ei gynnwys ynddo. Rwyf yn fodlon fod adnoddau digonol yn y Gronfa Trawsffurfio i ariannu'r bidiau un-tro a welir yn Tabl 1, ac mae'r dull o ariannu'r bid cyfalaf yn briodol a darbodus.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 – Crynodeb Bidiau Un-tro a Bid Ychwanegol Cyfalaf
Atodiad 2 – Bidiau Refeniw Un-tro
Atodiad 3 – Bid Cyfalaf Ychwanegol